Cyngor Bro Cerrig y Drudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed o Fai 2023

Presennol oedd Llio Morris, Guto Jones, Einion Edwards,Trystan Humphreys, John Jones, Menai Hughes, Prys Ellis (cadeirydd) a cyh Gwennol Ellis, cafwyd ymddiheuriadau gan Maria Roberts.
Datgan diddordeb. Neb
Cofnodion blaenorol fe'u harwyddwyd fel rhai cywir.
Ethol Swyddogion Caderiydd Prys Ellis
Is gadeirydd Llio Morris.
Cofrestr o ddiddordebau aelodau iw harwyddo.
**Goh**

**ebiaeth**
**[1]** Grwp cefnogol llyfrgell Cerrig y Drudion - anfoneb am ddefnyddio y llyfrgell i Ganolfan Glyd mis Ebrill - £80.00 pasiwyd iw dalu
[1.] Ffurflen flynnyddol cyfrifon 2022/23 - mae'r clerc wedi cwbwlhau y ffurflen ac wedi ei chyflwyno ir Cyngor iw cymeradwyo.
[1.2] Cyngor Conwy - Treth ystafell plwyf - £381.43 yn cael ei dalu yn fisol drwy DD.
[1.3] Cyngor Conwy – cafwyd ymateb ir llwynni oeddyn tyfu ir llwybr cerdded yn Cae LLwyd mae'r mater wedi ei ddatrus erbyn hyn.
[1.4] Archwilio Cymru - anfoneb am waith yr Awdit 2021/22 - £306.00 pasiwyd iw dalu.
[1.5] Fflam Eryri - anfoneb am waith cynnal a cadw y boiler - £114.00 pasiwyd iw dalu.
[1.6] Co op trefnnydd angladdau - cafwyd tal am waith a wnaethbwyd gan Glyn Lloyd - £60.00.
[1.7] Glyn Lloyd Hughes anfoneb am wneud gwaith o lenwi bed y diweddar Mr Robert Hicks. £60.00 pasiwyd iw dalu.
[1.8] Bryson Recycling anfoneb am 4 bin brown tanysgrifiad blwyddyn £95.00 pasiwyd iw dalu.
[1.9] Carol Humphreys cafwyd anfoneb am nwyddau a brynnwyd ir Ganolfan Glyd £17.84. pasiwyd iw dalu.
[2.] Cais Cronfa Brenig mae cais wedi ei gyflwyno i gael arian i ail wynebu llwybr y fynwent. £7,230.00.
[2.1] Cyflog y Clerc talwyd cyflog y clerc £1427.56
[2.2] HMRC PAYE talwyd £321.00.
[2.3] Cyngor Sir Conwy cawyd y precept cyntaf sef - £2500.00
[2.4] Tal am osod carreg fedd y diweddar Eric Davies £25.00 ac ail ysgrifennu ar y diweddar Margaret Roberts £20.00.
[2.5] Goryrru drwy Glasfryn ac wrth y Saracens mae hyn dal yn bryder ac byddwn yn dal i frwydro i gael arwyddion cyflymder. Hefyd mae gor yrru drwy'r pentref hefyd yn bryder ac bydd angen edrych ar gael 'Community Speed Watch' efallai yn optiwn.
[2.6] Parc Chwarae Maes Aled - deallwn bod angen tacluso y parc sydd wedi ei adael ers rai blynnyddoedd bellach - cael gwared a yr hen fatiau du sydd yna a roi giat ar y mynedfa yn ei ol ac efallai ceisio am grant i roi lle i blant chwarare yn ei ol.
[2.7] Cyfrifydd mae cyfrifydd yn awyddus i osod cabinet yn yr ystafell blwyf at ddibenion storio dogennau dan glo. Pasiwyd i gefnogi ei gais ac bydd rhaid cael gwared or hen gadeiriau i wneud lle yn y gegin fach.
[2.8] HMRC ad daliad £918.40 wedi ei dderbyn .
[2.9] Yr Eglwys wedi talu am logi yr ystafell plwyf £200.00
[3.] Cwmni Thiry 4/7 Moel Chwa, fferm wynt - tal am logi yn ddilyn diwrnod agored £40.00.
[3.1] Cartrefi Conwy - pasiwyd i ysgrifennu at y Cyngh Gwennol Ellis yn datgan ein pryder am ddau o denantiaid un yn Maes Ffynnon a llall yn Maes Aled sydd yn rannol wag weithiau am wythnosau gyda neb yn byw ynddynt, ac rydym yn cael arddeall bod yna restr yn aros am dy/bunglo yng Ngherrig y Drudion, tybed oes modd cysylltu a Cartrefi Conwy i ofyn ydynt yn ymwybodol o hyn ac ei fod ddim yn deg ar y rhai sydd yn wirioneddol aros i gael lle i fyw. Hefyd rhaid pwysleisio bod rhai tenantiaid ddim yn addas i fyw yn bentref Cerrig y Drudion.
[3.2] Cyngor Conwy gysylltu i ddweud bod draen wedi blocio ger Ty Gwyn, Pentrellyn cymer.